# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at y ddadl am Orchymyn Drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Amgylchedd) 2010 a gyhoeddwyd gan Jane Davidson, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaladwyedd a Thai, ar 4 Rhagfyr 2009

**At Michael German:**

Ysgrifennaf ynghylch mater a godwyd yn ystod dadl yn y Cyfarfod Llawn ar Orchymyn Drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Amgylchedd) 2009 a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 1 Rhagfyr 2009.

Yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn, gofynnwyd cwestiwn gennych ynghylch defnyddio eithriadau symudol ac yn arbennig a ddylai eithriadau o'r fath fod yn gymwys mewn meysydd lle nad oes materion ar hyn o bryd sy'n rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad Cenedlaethol. Fe'ch cyfeiriaf at y llythyr amgaeedig dyddiedig 5 Hydref 2009 gan y Prif Weinidog a anfonwyd at Dr Hywel Francis AS, Cadeirydd y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig, ac atoch chi eich hun mewn ymateb i'r llythyr dyddiedig 17 Awst 2009 a anfonwyd gennych ar y cyd â Dr Francis. Mae ymateb y Prif Weinidog yn esbonio'n fanwl y modd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn defnyddio eithriadau symudol a gobeithiaf y bydd yn fodd i egluro ein ffordd o feddwl ynghylch y mater. Rwyf hefyd wedi anfon copi o'r llythyr at holl Aelodau'r Cynulliad yn unol â fy addewid yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn.

Annwyl Hywel

**Gorchymyn (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Amgylchedd) Llywodraeth Cynulliad Cymru 2009**

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'r llythyr dyddiedig 17 Awst 2009, a anfonwyd gennych chi ar y cyd â Mike German, Cadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4 Llywodraeth Cynulliad Cymru, ynglŷn â'r craffu a fu'n ddiweddar ar y gorchymyn uchod. Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r ddau bwyllgor am eu craffu amserol ar y Gorchymyn drafft hwn, sy'n rhan allweddol o raglen ddeddfu Llywodraeth y Cynulliad, a rhoi fy ymateb i'r tri phrif fater sy'n peri pryder i'r ddau bwyllgor.

**Eithriadau Symudol**

Rydych yn codi pryderon penodol ynglŷn â chynnwys eithriadau symudol mewn meysydd nad ydynt eto wedi'u datganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol. Rwy'n falch o'r cyfle hwn i nodi ein safbwyntiau ni ynglŷn â'r mater hwn, ac rwy'n gobeithio y bydd hynny'n lleddfu eich pryderon.

Mae cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad wedi'i ddiffinio trwy gyfeirio at y materion a nodir o dan Atodlen 5, yn hytrach na thrwy gyfeirio at feysydd. Gan hynny, gall y materion ymwneud â mwy nac un maes. Diffiniad bras a roddir o'r meysydd, ac mae posibilrwydd sylweddol y byddant yn gorgyffwrdd. Pan fo mater yn gorgyffwrdd rhwng dau faes, mae angen dewis ym mha faes y dylid gosod y mater hwnnw. Er cyfleustra, gosodir y materion o dan y meysydd sy'n gweddu orau i'w cynnwys creiddiol, ond nid yw hynny'n cyfyngu ar y pŵer deddfwriaethol a roddir mewn unrhyw faes penodol.

Nid yw rhoi mater mewn maes penodol yn golygu ei fod yn ymwneud â'r maes hwnnw yn unig felly, ac mae'r un peth yn wir am yr eithriadau symudol a restrir ym mharagraff A1 yn Rhan 2 o Atodlen 5. Yn wir, prif nodwedd yr eithriadau symudol yw y gellir eu cymhwyso i

bob math o fater, ym mha faes bynnag y'u rhestrir. Bydd y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Eithriadau i Faterion, os a phan y'i gwneir gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor, yn diwygio adran 94(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i'w gwneud yn glir na fyddai darpariaeth o fewn cymhwysedd y Cynulliad petai'n dod o dan eithriad symudol, boed yr eithriad hwnnw o dan bennawd sy'n cyfateb i'r maes sy'n cynnwys y mater ai peidio.

Wrth ystyried defnyddio eithriadau symudol mewn LCOs, fel y gwelwyd gyda'r LCO Amgylchedd arfaethedig, tybiwn fod cyfres o ystyriaethau i'w cadw mewn cof wrth benderfynu a ddylid ychwanegu eithriad symudol at Atodlen 5. Mae'r rhain fel a ganlyn: bwriedir ychwanegu mater neu faterion newydd at Atodlen 5 a fydd yn creu'r angen am eithriad newydd; mae'r eithriad hwnnw'n berthnasol i fwy nac un mater; ac mae'n amlwg y dylai'r eithriad fod yn berthnasol i bob mater, ym mhob achos (gan fod yr eithriad dan sylw'n disgrifio rhywbeth y cytunwyd y byddai'n parhau'n gyfrifoldeb ar Lywodraeth y DU a Senedd Llundain ym mhob amgylchiad).

Os yw'r tair egwyddor uchod yn gymwys, mae'n sefyll i reswm y dylai'r eithriad fod yn eithriad symudol. Bydd cael eithriad symudol yn gymorth rhag gorfod ailadrodd yr eithriad sawl gwaith, ac o ganlyniad bydd yn helpu i gadw Atodlen 5 yn syml, clir a thryloyw. Mae hefyd yn ei gwneud yn haws cymhwyso eithriad i bob mater perthnasol a allai godi yn y dyfodol.

**Dyblygu'r Cyfyngiad ynghylch Swyddogaethau Gweinidog y Goron**

Nododd y pwyllgorau eu pryderon ynghylch yr eithriadau sy'n dyblygu'r cyfyngiad yn ymwneud â 'swyddogaethau Gweinidog y Goron' sydd eisoes wedi'i gynnwys ym mharagraff 1, Rhan 2 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Rydym yn cytuno y dylid osgoi dyblygu dianghenraid. Pryd bynnag y mae Llywodraeth y DU wedi gofyn am eithriadau yr ymddengys eu bod yn dyblygu'r cyfyngiad ynghylch swyddogaethau Gweinidog y Goron, rydym wedi tynnu eu sylw at y cyfyngiad penodol hwnnw ac at yr angen i beidio â dyblygu darpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru. Mae'n briodol nodi hefyd nad yw swyddogaethau Gweinidog mewn perthynas â phwnc yr un fath â'r pwnc ei hunan o anghenraid, ac mae Llywodraeth y DU wedi datgan felly nad oedd y cyfyngiad ynghylch swyddogaethau Gweinidog y Goron bob amser yn ddigonol mewn rhai meysydd penodol.

**Cymhlethdod y Setliad Deddfwriaethol a'r Memoranda Esboniadol**

Yn olaf, mynegodd y pwyllgorau rai pryderon ynghylch cymhlethdod y setliad deddfwriaethol sy'n cael ei ddatblygu o dan Atodlen 5 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a'r angen i sicrhau bod y Memoranda Esboniadol yn esbonio'n glir y pwerau sy'n cael eu rhoi yn ogystal â'r rhesymau dros unrhyw eithriadau i'r cymhwysedd, a'u goblygiadau.

Fel y gwyddoch, mae union delerau'r Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol yn destun trafodaethau manwl gydag Adrannau'r Llywodraeth yn Whitehall. Mae llawer o'r cymhlethdodau drafftio, megis eithriadau manwl rhag cymhwysedd, wedi codi o ganlyniad i'r trafodaethau hyn. O ran Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol yr Amgylchedd, rydym wrthi ar hyn o bryd yn gweithio gydag Adrannau Llywodraeth y DU i geisio symleiddio'r Gorchymyn ac osgoi eithriadau dianghenraid. Er hynny, mae'n anodd taro'r cydbwysedd angenrheidiol rhwng y dyhead i symleiddio'r broses ddrafftio ar un llaw a'r awydd am sicrwydd ynghylch terfynau a chwmpas cymhwysedd Llywodraeth y Cynulliad ar y llaw arall. Rydym yn awyddus i weithio tuag at setliad deddfwriaethol symlach ond bydd gofyn i bawb sydd ynghlwm â'r broses gytuno ar hyd a lled y cymhwysedd deddfwriaethol y byddai'n briodol ei throsglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol, o ystyried ei bod yn gorff deddfu etholedig. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi mynnu erioed bod gwahaniaeth sylweddol rhwng rhoi pwerau deddfu i gorff o'r fath a rhoi pwerau llunio is-ddeddfwriaeth i'r

Weithrediaeth, lle gallai fod yn fwy priodol talu sylw manwl i union fanylion y pwerau hynny.

Fel y nodais uchod, bydd dechrau defnyddio eithriadau symudol yn gymorth, yn ein tyb ni, i sicrhau setliad symlach gan y bydd yn symleiddio Atodlen 5 ac yn osgoi ailadrodd eithriadau'n ddiangen. Bydd hynny, yn ei dro, yn helpu'r ddealltwriaeth o'r cymhwysedd deddfwriaethol a roddwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Rwyf wedi nodi eich sylwadau ynghylch y Memoranda Esboniadol. Byddwn yn anelu i sicrhau bod y memorandwm esboniadol diwygiedig ar gyfer Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol yr Amgylchedd a'r holl femoranda esboniadol yn y dyfodol yn cynnwys disgrifiad clir o'r pwerau a roddir i'r Cynulliad Cenedlaethol ynghyd â'r rhesymau dros unrhyw eithriadau i'r cymhwysedd a goblygiadau'r eithriadau hynny. Yn hynny o beth, mae'n bwysig bod y pwerau hyn yn cael eu gosod yn glir yng nghyd-destun y setliad datganoli ehangach, fel pwerau a roddir i'r corff deddfu mewn meysydd lle mae datganoli eisoes wedi digwydd. Pwrpas y pwerau yw cynyddu gallu'r sefydliadau a ddatganolwyd i ddatblygu atebion penodol i Gymru mewn meysydd polisi lle mae'r angen am ddull gweithredu ar wahân eisoes wedi'i gydnabod. Ni fyddai'r diben hwnnw'n cael ei gyflawni pe bai cyfyngiadau cymhleth ar y pwerau hyn.

Rwy'n gobeithio bod yr ymateb hwn yn lleddfu pryderon y ddau bwyllgor.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)2452(FM) a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithsol, ar 10 Rhagfyr 2009**

**At Gareth Jones:**

Yn ystod y sesiwn Cwestiynau i'r Prif Weinidog ar 1 Rhagfyr, codwyd pryderon gennych am ddarparu gwasanaethau gofal iechyd i'r lluoedd arfog a chyn-filwyr. Fe wnaeth y Prif Weinidog addo y byddwn yn ysgrifennu atoch ynghylch y sylwadau a wnaethoch.

Fel y nodwyd gan y Prif Weinidog yn ei ymateb i chi, mae ysbytai sy'n arbenigo mewn trin milwyr mewn swydd, a gaiff eu hanafu tra ar ddyletswydd wedi'u lleoli yn Lloegr, a Llywodraeth y DU a gwasanaethau meddygol y Weinyddiaeth Amddiffyn sy'n gyfrifol amdanynt. O dan yr hen drefn ar gyfer Derbyn Cleifion Milwrol (RAMP), byddai prif ysbytai'r DU i gyd, yn eu tro, yn derbyn cleifion o unrhyw fan lle'r oeddent yn gweithredu. Erbyn hyn, fodd bynnag, Ysbyty Selly Oak ac Ysbyty'r Frenhines Elizabeth yn Birmingham yw'r unig ysbytai sy'n derbyn cleifion. Caiff y prif driniaethau i gyd eu gwneud yn Birmingham (y Ganolfan Frenhinol ar gyfer Meddygaeth Amddiffyn) a chaiff cleifion eu trosglwydd i Ganolfan Adsefydlu Meddygol Amddiffyn Headley Court i dderbyn gofal arbenigol (fel adsefydlu niwro ac orthopoedig neu i osod breichiau a choesau), neu eu rhyddhau i Uned Adsefydlu Ranbarthol am ffisiotherapi.

Felly, er nad yw polisi'r lluoedd arfog wedi'i ddatganoli, nid yw'r un yn wir am y gwasanaethau iechyd, ac felly rydym yn defnyddio'r pwerau sydd gennym ym maes iechyd i helpu i wella bywydau'r rhai sydd wedi'u rhyddhau o'r fyddin ar sail meddygol ynghyd â bywydau cyn-filwyr yn gyffredinol. Isod, amlinellaf beth o'r gwaith y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud yn y maes hwn:

**Cyn-filwyr ac Anhwylder Straen Wedi Trawma (PTSD)**

Rydym yn ymroddedig i gefnogi a thrin cyn-filwyr â PTSD ledled Cymru. Darperir gwasanaethau trwy feddygon teulu a gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol lleol. Mae

triniaeth fwy arbenigol ar gael hefyd drwy Wasanaeth Straen Trawma y GIG yn Athrofa Prifysgol Cymru.

Awgryma'r dystiolaeth y gall y mwyafrif helaeth o achosion o PTSD gael eu trin gan wasanaethau lleol mewn lleoliad tebyg i gleifion allanol, sef yr hyn a ddymuna'r mwyafrif o bobl a'u teuluoedd. Bydd cyn-filwyr, yn ogystal â'r holl bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau iechyd meddwl, yn elwa o benderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau fod ansawdd ac argaeledd y gwasanaethau yn gwella dros y tair blynedd nesaf. Fel rhan hanfodol o gyrff integredig newydd y GIG, bydd gan wasanaethau iechyd meddwl bresenoldeb cryfach ar draws y GIG er budd holl ddefnyddwyr y gwasanaeth.

**Peilot Gwasanaeth Iechyd Meddwl Cymunedol ar gyfer Cyn-filwyr**

Ym mis Chwefror 2008 lansiais brosiect peilot dwy flynedd o'r enw Gwasanaeth Iechyd Meddwl Cymunedol ar gyfer Cyn-filwyr. Mae'n rhan o'r Gwasanaeth Anhwylder Straen a gynigir yn Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd, dan arweiniad Dr Jon Bisson, cyn-filwr ac arbenigwr mewn PTSD sy'n cael ei gydnabod ledled y byd. Cost y peilot yw £135,000 a chaiff ei ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Ar hyn o bryd, mae'r prosiect peilot yn ceisio nodi lefel anghenion cyn-filwyr a'r dull mwyaf priodol o ddiwallu'r anghenion hyn. Rhan o'r gwaith hwn yw sicrhau y gellir ymateb i anghenion iechyd y cyn-filwyr hyn o fewn gwasanaeth prif ffrwd y GIG.

Mae'n un o chwe chanolfan yn y DU sy'n cymryd rhan mewn cynllun peilot dwy flynedd ar gyfer trin cyn-filwyr â PTSD, ac yn darparu gwasanaethau i ardaloedd a gwmpesir gan gyn-ymddiriedolaethau GIG Caerdydd a Bro Morgannwg a Chwm Taf. Mae'r mwyafrif o gyn-filwyr a atgyfeirir yn byw yn yr ardaloedd hyn ond mae unigolion wedi'u hatgyfeirio o'r tu allan i'r dalgylch. Er bod y Gwasanaeth wedi'i leoli yn Athrofa Prifysgol Cymru, Caerydd, mae unigolion wedi'u hatgyfeirio o'r tu allan i'r dalgylch.

Mae atgyfeiriadau wedi'u derbyn o ffynonellau gwahanol, gan gynnwys hunanatgyfeiriadau, atgyfeiriadau gan y teulu, timau iechyd meddwl, Asiantaeth Gweithwyr y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr (SPVA), Combat Stress a meddygon teulu. Mae'r opsiynau trin posibl yn cynnwys comisiynu'r gwasanaethau a gynigir gan Combat Stress, sef sefydliad elusennol sy'n derbyn grant blynyddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Ymchwil Anghenion Iechyd Cyn-filwyr**

Er mwyn ategu'r peilot hwn a darparu data arolwg helaeth i lywio datblygiad gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer cyn-filwyr yng Nghymru yn y dyfodol, yn ddiweddar comisiynais brosiect Ymchwil Asesu Anghenion Cyn-filwyr, dan arweiniad Dr Jon Bisson o Brifysgol Caerdydd, er mwyn nodi lefel anghenion iechyd cyn-filwyr yng Nghymru.

**Grŵp Gorchwyl a Gorffen Iechyd Meddwl Cyn-filwyr**

Gofynnais i Dr Bisson hefyd sefydlu a chadeirio Grŵp Gorchwyl a Gorffen cenedlaethol hefyd a fydd yn ategu a gwella'r gwaith sy'n cael ei wneud drwy'r prosiect peilot a'r ymchwil asesiad anghenion. Bydd yn cynnwys cynrychiolwyr statudol ac anstatudol ac yn ystyried anghenion meddyliol, corfforol a chymdeithasol ehangach cyn-filwyr, gan gasglu tystiolaeth o'r tu allan i gwmpas peilot. Ar ôl iddynt gyflwyno'u hadroddiad i mi, byddaf yn ystyried a yw'r model gwasanaeth a gynlluniwyd yn effeithiol ac a ddylai gael ei gyflwyno ledled Cymru yn nes ymlaen. Rwy'n awyddus i sicrhau na fydd bwlch o ran darparu gwasanaeth rhwng diwedd y cynllun peilot a mabwysiadu'r model cenedlaethol.

**Gofal Iechyd a Thriniaeth â Blaenoriaeth i Gyn-filwyr drwy'r GIG**

Ar 23 Tachwedd 2007, cyhoeddais y byddai gan bob cyn-filwr hawl i gael triniaeth a gofal â blaenoriaeth gan y GIG am gyflyrrau sy'n ymwneud â'u gwasanaeth, gan ehangu blaenoriaeth gyfredol gwasanaethau'r GIG, sef pensiynwyr rhyfel, i gynnwys pob cyn-filwr. Mae Cylchlythyr Iechyd Cymru wedi'i ddosbarthu i Ymddiriedolaethau'r GIG, BILIau, meddygon teulu a chyrff iechyd eraill er mwyn eu hysbysu bod y driniaeth â blaenoriaeth i gyn-filwyr wedi'i ehangu.

**Darparu Breichiau a Choesau Prosthetig**

Mae papur Gorchymyn y Weinyddiaeth Amddiffyn y nodi y dylai safon y ddarpariaeth gan y GIG ar gyfer milwyr sydd wedi'u hanafu gyfateb i'r hyn a ddarperir gan y Gwasanaethau Meddygol Amddiffyn o leiaf. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu dyraniad uniongyrchol i Gomisiwn Iechyd Cymru (CIC) i alluogi Canolfannau Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar i ddiwallu'r angen hwn. Mae'r Comisiwn yn ariannu'r gwaith ar sail comisiwn claf unigol ac mae'r taliadau yn ôl-weithredol er mwyn osgoi unrhyw oedi posibl.

**Cynllunio Adsefydlu a Gofal Bywyd Hirdymor**

Darperir gwasanaethau anafiadau asgwrn y cefn a niwroadsefydlu yng Nghymru gan Ysbyty Rookwood yn y De a gwasanaeth Robert Jones ac Agnes Hunt yng Nghroesoswallt yn y Gogledd. Byddai'r gwasanaethau hyn yn cyfrannu at adsefydlu hirdymor cyn-filwyr.

**Asesu Anghenion Cyn-filwyr Rhyfel**

Mae dogfen gwmpasu ddrafft sy'n ymwneud ag asesu anghenion posibl cyn-filwyr rhyfel yn cael ei ystyried gan y Comisiwn. Pwrpas yr asesiad anghenion fydd:

- amcangyfrif y cynnydd yn y galw am wasanaeth iechyd, dros y pum mlynedd nesaf gan gyn-aelodau o'r lluoedd arfog;
- proffwydo'r gofynion cyllidol/cyllidebol angenrheidiol i gwrdd â'r galw ychwanegol hwn

Bydd angen diffinio union ystod yr anghenion a'r gwasanaethau iechyd sydd i'w cynnwys yn yr asesiad anghenion, ond bydd yn cynnwys y math o wasanaeth adsefydlu tymor hwy a ddarperir gan Rookwood a Gwasanaethau Aelodau Artiffisial a Chyfarpar Cymru yn ogystal â'r anghenion a allai godi yn sgil anaf trawmatig ar yr ymennydd.

Bydd y Comisiwn a'r GIG yn cydweithio'n agos â'r Weinyddiaeth Amddiffyn/ Gwasanaeth Iechyd Amddiffyn i gwblhau'r adolygiad.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)2456(FM) a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithsol, ar 10 Rhagfyr 2009**

**At Kirsty Williams:**

Yn ystod y sesiwn Cwestiynau i'r Prif Weinidog ar 1 Rhagfyr, codwyd pryderon gennych am allforio paralel cynhyrchion fferyllol. Fe wnaeth y Prif Weinidog addo y byddwn yn ysgrifennu atoch ynghylch y pwyntiau a wnaethoch.

Yn draddodiadol, mae'r diwydiant cynhyrchion fferyllol wedi ystyried y DU fel ffon fesur bwysig ar gyfer gosod prisiau ar gyfer meddyginiaethau ledled Ewrop, sydd fel arfer wedi golygu y byddwn yn talu mwy na'r gwledydd llai cyfoethog yn ne Ewrop. Gyda datblygiad yr Undeb Ewropeaidd a chludiant rhydd nwyddau masnach rhwng yr aelod-wladwriaethau, buan iawn y sylweddolwyd bod y prisiau gwahanol hyn yn fusnes mewnforio/allforio llewyrchus.

Golygai prisiau cymharol uchel yn y DU felly ein bod yn darged ar gyfer mewnforio meddyginiaethau rhatach o'r gwledydd hyn, a gelwir yn 'fewnforio paralel' am fod y meddyginiaethau brand yma'n aml yn dod o safleoedd gweithgynhyrchu cynhyrchion fferyllol yn y DU i'w gwerthu yn yr UE, yna gallai rhywun fynd i wlad yn ne Ewrop i brynu symiau mawr o'r cyffuriau hyn am bris llawer is nag y gallant yma. Mae'r hinsawdd economaidd gyfredol wedi gwrthdroi'r duedd hon, fel bod gwerth isel y Sterling o'i gymharu â'r Ewro wedi creu marchnad allforio yn ôl i Ewrop o'r DU sy'n tarfu ar gyflenwad meddyginiaethau mewn rhannau o'r DU yn ôl y sôn.

Gellir beio peth o'r prinder cyflenwad ar faterion allforio paralel; fodd bynnag, mae rhai cyffuriau'n brin am resymau eraill megis problemau gweithgynhyrchu neu reoli safon. Mae Novartis, gweithgynhyrchydd Femara, yn cydnabod bod eu cyflenwad yn brin ac maent wedi sefydlu dull cyflenwi amgen i sicrhau fod fferyllyddion yn cael gafael ar y feddyginiaeth ar gyfer eu cleifion. Mae hon yn broblem ledled y DU ac nid oes tystiolaeth ar hyn o bryd fod cleifion yng Nghymru yn cael eu trin yn wahanol i weddill y DU.

Mae cynnal trafodaethau â chwmnïau cyffuriau yn anodd iawn, ond rydym am gael y gwerth gorau i gleifion ac mae trafodaethau'n parhau ar lefel y DU i sicrhau na fydd y cam-fanteisio ar gorff cleifion Cymru drwy gynhyrchu prinder o gyffuriau sy'n allweddol ar gyfer trin afiechydon ac yn arbennig canser yn effeithio'n uniongyrchol ar ein cleifion.

Gallaf eich sicrhau fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn monitro'r sefyllfa ac rydym yn gweithio gyda fferyllyddion, awdurdodau trwyddedu a chyflenwyr i sicrhau fod cyflenwadau digonol o feddyginiaethau ar gael i gleifion yng Nghymru.